


Cystadleuaeth Ymchwil Delweddu 2024-25: Ceisiadau





AI ar Waith: Pontio Data, Iechyd a Dynoliaeth

Mae'r llun hwn yn dangos rôl drawsnewidiol deallusrwydd artiffisial (AI) ar draws sawl gwahanol faes ymchwil a chymhwysedd yn y byd go iawn. Yn ei ganol, mae cysgodlun dynol gyda'r llythrennau "AI" yn symboleiddio bod systemau deallus yn cael eu hintegreiddio i ymchwiliad sy'n canolbwyntio ar fodau dynol. Yn amgylchynu'r canolbwynt hwn mae pedair golygfa sy'n adlewyrchu dylanwad amrywiol AI: rhwydweithiau niwral a strwythurau data mewn gwyddor gyfrifiadol, dadansoddi data mewn amgylcheddau ymchwil, monitro a chynaliadwyedd amgylcheddol, a delweddu meddygol mewn gofal iechyd. Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn cynrychioli gweledigaeth unedig o AI fel adnodd cydweithredol, gan wella ein gallu i ddehongli data cymhleth, cefnogi iechyd a llesiant, a mynd i'r afael â heriau byd-eang.

Mae'r naratif gweledol hwn yn cyd-fynd â'm gwaith ymchwil presennol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu systemau AI cymdeithasol ymwybodol sy'n cynorthwyo mewn gwyddorau iechyd, dadansoddi adroddiadau, a gwneud penderfyniadau yn y byd go iawn.



Sut Beth yw Cynhwysiant?

Mae fy ymchwil yn edrych ar hygyrchedd a chynhwysiant i'r rhai sy'n byw ag anabledd neu amhariad wrth ymgysylltu â'r celfyddydau. Roedd y prosiect hwn yn cynnwys 6 fforwm gydag ymarferwyr celfyddydau anabledd a'u cyfranogwyr, gan holi ynghylch eu profiadau o'r celfyddydau. Mae'r llun yn dangos adborth gan un fforwm a dwy o ddoliau fy merch. Prynwyd y doliau gan ffrindiau oedd â'u calonau yn y lle iawn o wybod bod gan fy mab a minnau anabledau'n ymwneud â symudedd.

Ar ôl y fforymau, bu i mi gwestiynu sut mae'r doliau hyn yn cael eu gweld o ran cynrychiolaeth a chynhwysiant. Mae'n hawdd bod yn amheus o gorfforaethau mawr sy'n defnyddio pobl anabl fel strategaeth farchnata ond, rwyf hefyd yn dychmygu pa mor gadarnhaol yw hi i eneth ifanc anabl weld dol sy'n debyg iddi hi. Mae'r llun yn cynrychioli'r gwrthdaro rhwng y syniad o gynrychiolaeth a'r newidiadau diriaethol y byddai'r gymuned anabl yn wirioneddol elwa ohonynt.



Football for Change: Cysylltiadau Byd-eang, Effaith Leol

Sesiwn bêl-droed gyda phlant yn Lesotho, a ddarperir ar y cyd gan Sefydliad Clwb Pêl-droed Wrecsam, Kick4Life FC, a Phrifysgol Wrecsam. Mae'r sesiwn yn dangos pêl-droed yn cael ei ddefnyddio fel arf ar gyfer ymgysylltiad ieuenctid, cynhwysiant cymdeithasol, a dysgu traws-ddiwyllynnol. Mae'n amlygu'r potensial sydd gan bartneriaethau chwaraeon sy'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol i rannu arfer da a hyrwyddo datblygiad cymunedol. Mae'r foment hon yn adlewyrchu themâu canolog fy ymchwil PhD, sy'n archwilio strategaeth ac effaith gwaith ymgysylltu cymunedol Sefydliad Clwb Pêl-droed Wrecsam, a'i gyfeiriad yn y dyfodol.

Mae'r fenter genedlaethol hon yn amlygu rôl ddatblygol y Sefydliad fel mudiad pêl-droed cymdeithasol gyfrifol. Mae'r ddelwedd yn symbol o allu pêl-droed i uno pobl a chyflawni canlyniadau cymdeithasol ystyrlon, gan atgyfnerthu dadl ehangach yr ymchwil bod clybiau fel CPD Wrecsam yn gallu gweithredu fel cynrychiolwyr pwerus dros newid cymdeithasol.



Y Golau

Mae'r ffotograff hwn yn dangos y ffordd y mae gwasanaethau angladdau wedi newid yng Nghymru ar adeg pan mae'n dod yn fwy seciwlar. Ers pandemig Covid mae datblygiadau arbennig o sylweddol yn digwydd i'r ffordd y cynhelir angladdau. Mae mwy o bobl yn dewis cael angladd heb wasanaeth o'r enw amlosgi uniongyrchol. Mae angladdau ar-lein hefyd bellach yn fwy cyffredin, sy'n golygu y gallant fod yn ffordd fuddiol o ddarparu ar gyfer anwyliaid sy'n byw ymhellach i ffwrdd, ond gallant hefyd fod yn ynysu i'r rhai sy'n galaru heb gefnogaeth eu cymuned.

Mae'r llun hwn yn darlunio y ffordd y mae goleuni yr eglwys yn parhau i ddisgleirio er bod y person sy'n mynychu'r angladd ar-lein yn wynebu'r ffordd arall ac nid yw o reidrwydd yn ymwybodol ohono. Byddai'r person fel arfer yn mynychu'r angladd ar-lein ar ei ben ei hun o rywle arall, ond rydw i wedi eu gosod yn yr eglwys ac yn wynebu i ffwrdd o'r golau am effaith. Nid eglwysi a chapeli yn unig sy'n wag, mae amlogfeydd bellach hefyd yn symud i'r un cyfeiriad.

Felly, bydd yr ymchwil hon yn ymchwilio i sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar y rhai o wahanol gredoau crefyddol ac anghrefyddol yng Nghymru a ffyrdd o gefnogi'r broses brofedigaeth yn unol â hynny.



Niwtraleiddio Tosturi

Mae'r ddelwedd hon yn dangos saboteur hela ochr yn ochr â gwartheg y tu ôl i rwystr metel, sy'n symbol o sut mae cymdeithas yn categoreiddio anifeiliaid yn wahanol, gan roi mwy o amddiffyniad i rai nag eraill. Gan ddefnyddio disgwrs o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, mae fy ymchwil yn ymchwilio i'r strategaethau y mae pobl yn eu defnyddio i gyfiawnhau credoau rhywogaethol. Dyna yw, pam mae rhai anifeiliaid yn derbyn empathi ac amddiffyniadau cyfreithiol, tra bod eraill yn parhau i fod yn ymylol, dan fygythiad, yn cael eu defnyddio a'u bwyta. Mae llwynogod yn dangos gwrthgyferbyniadau cymdeithasol a chyfreithiol: er eu bod yn cael eu hystyried fel bywyd gwyllt, mae llwynogod hefyd yn cael eu hystyried yn gyfreithiol fel plâu neu gyflawnwyr, ni ellir eu hela yn gyfreithlon, ond mae eu statws dioddefwr yn parhau i fod heb ei gydnabod.


Mae'r cyfrifoldeb am amddiffyn anifeiliaid yn gorwedd i raddau helaeth ar elusennau anifeiliaid ac actifyddion ac nid yr heddlu. Yn ogystal, mae'r mwgwd a wisgir yn symboleiddio'r hunaniaethau twyllodrus y mae pobl yn eu creu ar-lein, gan gynnwys proffiliau ffug neu esgus bod yn rhywun arall, her gyda fy dulliau ymchwil. Trwy ddadansoddi data cyfryngau cymdeithasol, mae fy ymchwil yn archwilio sut mae credoau rhywogaethol yn cael eu cynnal, eu mynegi neu eu caddie's fwriadol trwy ryngweithiadau digidol. Mae'r ddeinameg hon yn adlewyrchu'r ffyrdd cymhleth y mae unigolion yn cyfiawnhau neu'n gwadu niwtraleiddio gan ddefnyddio technegau niwtraleiddio tra hefyd yn adlewyrchu natur newidiol hunaniaethau ar-lein a ffurfio safbwyntiau ideolegol.



EC_Shots – Wyt Ti'n Hoffi Menyn?

Mae'r llun yn dangos disgybl o Ysgol Penarlâg ger Shotton yn Sir y Fflint. Roedd disgyblion Blwyddyn 4 yn cymryd rhan mewn gweithdy gwneud ffilmiau, a gyflwynwyd gan y gwneuthurwr ffilmiau Joe Edwards a minnau, fel rhan o ficro-brosiect o fewn y prosiect Dinasyddion Ecolegol+ o'r enw EC_Shots. Roedden nhw wedi cael y dasg o ddatblygu ffilm munud gyda'i gilydd ar yr hyn yr oedd Dinasyddiaeth Ecolegol yn ei olygu iddyn nhw. Fel rhan o'r broses o ddatblygu syniadau roedden nhw wedi ymateb i gyfres o gwestiynau fel 'Pe bai'r ddaear yn gallu siarad, beth fyddai'n ei ddweud?' Roedden nhw wedi datblygu cyfres o syniadau bwrdd stori mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, cyn mynd allan i dir eu hysgol gyda chamerâu i ddogfennu eu hamgylchedd naturiol eu hunain.

Dyma un o'u ffotograffau. Mae'n dangos bachgen gyda chwpan menyndyn, yn codi ei ên i ddangos glow y blodyn yn cael ei adlewyrchu ar ei groen. Mae hefyd yn dangos eu bod wedi dilyn ein cyfarwyddiadau ar gyfansoddiad, ffocws a goleuadau!



O Ddealltwriaeth i Draweffaith: Pwysigrwydd Myfyrdod

Mae'r llun hwn yn cyfleu naws erthygl cyfnodolyn a ysgrifennais am bŵer myfyrdod ac atblygiaeth o fewn ymchwil. Drwy ddefnyddio llais personol ac ysgogiadau o fy model myfyrio addasedig fy hun, rwy'n mynd ati i rannu dealltwriaethau o sesiwn dadansoddi ymchwil prosiect cydweithredol. Rwy'n myfyrio ar sut mae fy ngwerthoedd, rhagfarnau anfwriadol, profiadau, a'm barn bersonol yn dylanwadu ar y ffordd rwy'n mynd ati i ddeall fy ngwaith a'm hagwedd tuag ato, a pha mor bwysig yw hi i gydnabod a dogfennu'r dealltwriaethau hyn.

Mae'r papur yn cynnig ysgogiadau meddwl ac awgrymiadau a ddyluniwyd i gefnogi ymchwilwyr ar bob lefel, gan bwysleisio sut mae modd i'r arferion hyn ychwanegu at dryloywder ymchwil, gwella cywirdeb a chyfoethogi ymarfer proffesiynol.




Dal Ati i Ffynnu Wnaeth Hi: Gwydnwch Mewn Blodyn

Fel blodau sy'n tyfu trwy graciau, mae merched awtistig yn aml yn ffurfio cyfeillgarwch mewn mannau nad ydynt bob amser yn eu lletya. Mae fy ymchwil PhD yn archwilio profiadau merched awtistig o gyfeillgarwch, ac mae eu naratifau yn datgelu eu bod yn aml yn cysylltu ag eraill mewn ffyrdd sy'n herio disgwyliadau cymdeithasol confensiynol. Mae eu straeon yn tarfu ar stereoteipiau digymorth ac yn cynnig dealltwriaeth gyfoethocach a mwy cynhwysol o sut y gall cyfeillgarwch edrych pan fyddwn yn newid ein persbectif.

Mae'r ffotograff hwn yn dal un llygad y dydd yn tyfu o grac mewn wal gerrig. Yn y cefndir, mae'r gathiau caeedig yn symbol o'r rhwystrau y mae merched awtistig yn aml yn eu hwynebu. Mae'r llygad y dydd yn cynrychioli unigolrwydd, gwytnwch a thwf, tra bod y wal gerrig yn adlewyrchu'r amgylcheddau cymdeithasol anhyblyg, fel ysgolion, lle gall normau ymddygiad niwronodweddiadol eithrio'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio.

Fel y llygad y dydd sy'n tyfu mewn lle annisgwyl, mae merched awtistig yn aml yn dod o hyd i ffyrdd o ffynnu yn gymdeithasol, hyd yn oed mewn amgylcheddau nad ydynt wedi'u cynllunio gyda'u hanghenion mewn golwg. Mae'r ddelwedd hon yn gwahodd gwylwyr i ailystyried sut mae cyfeillgarwch yn edrych a ble y gall dyfu, ac i werthfawrogi gwahaniaeth fel rhywbeth i'w feithrin, nid ei gywiro.




Yr Hyn Mae Ein Cyrff yn ei Arael Ar ôl

Mae'r ddelwedd hon yn cipio ennyd mewn is-goch, nid o olau, ond o wres araf. Mae print llaw yn disgleirio ar arwyneb oer, gan ddatgelu presenoldeb sydd eisoes wedi ein gadael. Mae'n cynnig trosiad gweledol am yr olion rydym yn eu gadael ar ôl, gan atseinio egwyddor fforensig sylfaenol Edmond Locard: mae pob cysylltiad yn gadael ei ôl.

Er ein bod ni'n aml yn meddwl am olion bysedd, ffibrau neu farciau esgidiau, mae'r ddelwedd hon yn ein gwahodd ni i ystyried math o dystiolaeth fwy diflanedig, gwres gweddilliol y corff. Mae'r ymchwil hon yn archwilio p'un a all yr olion gwresol hyn, fel y rhai a adewir ar sedd car ar ôl damwain taro a ffoi, helpu i bennu presenoldeb, amseriad, neu symudiad. Am ba hyd fydd yr olion hyn yn parhau? A allai gynnig math newydd o dyst, hyd yn oed pan nad oes unrhyw un yn gwylio?

Mae'r ddelwedd hon yn ein cymell i gwestiynu natur tystiolaeth yn ei hanfod. Hyd yn oed pan nad oes ôl i'w weld, mae gwyddoniaeth yn datgelu'r hyn mae ein cyrff yn ei adael ar ôl.



Gweddillion i'w Gweld

Mae'r darlun digidol hwn yn dangos tair ffurf rhestr ysgerbydol, a ddefnyddir i gatalogio gweddillion ysgerbydol dynol o gasgliad sydd wedi'i restru ar gyfer ocsiwn yn y DU. Mae'r ardaloedd cysgodol ar bob diagram yn dangos pa esgyrn oedd yn bresennol, ac o'r broses recordio hon, daeth yn amlwg bod o leiaf tri pherson gwahanol yn cael eu cynrychioli. Nid oedd unrhyw wiriadau wedi'u gwneud i gadarnhau a oedd y gweddillion yn asgwrn go iawn, o ble roedden nhw'n dod, neu pa mor hen oedden nhw, gan godi cwestiynau difrifol ynghylch a oedd eu gwerthiant hyd yn oed yn gyfreithlon. Er gwaethaf ymdrechion i'w atal, cafodd y gweddillion eu gwerthu mewn ocsiwn am £160.

Mae'r ddelwedd hon yn rhan o fy ymchwil ehangach sy'n archwilio'r problemau moesegol a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â phrynu a gwerthu gweddillion dynol. Er bod y ddelwedd yn ymddangos yn glinigol ac yn syml, mae'n adlewyrchu mater mwy cymhleth a phryderus. Mae'n codi cwestiynau am hunaniaeth, urddas, cyfreithlondeb, a sut rydym yn gwerthfawrogi'r meirw. Mae'r teitl, *Remains to Be Seen*, yn cyfeirio at yr ansicrwydd sy'n ymwneud â'r unigolion hyn ac at yr angen i wynebu'r fasnach hon yn uniongyrchol. Nid proses dechnegol yn unig yw cofnodi'r hyn a oedd yno: mae'n rhan o weld y broblem yn glir, galw am newid, a sicrhau nad yw gweddillion dynol bellach yn cael eu trin fel gwrthrychau er elw.



Y Gwirionedd Dan Wyneb y Dŵr

Tynnwyd y llun hwn yn ystod taith gerdded gyda fy nghi, wrth ymyl darn o ddŵr lle gallai rhywun fod ar goll, ac efallai y byddai neb yn gwybod. Mae'n adlewyrchu dechrau prosiect ymchwil cydweithredol wedi'i seilio ar realiti llym. Yn y DU, mae tua 600 o bobl yn bodd i bob blwyddyn, ac nid oedd gan bron i hanner unrhyw fwriad i fynd i mewn i'r dŵr. Nid yw llawer byth yn cael eu gwella.

Er gwaethaf eu heffeithiolrwydd profedig ar y tir, anaml y caiff cŵn cadaver eu defnyddio mewn adferiad dyfrol, ac mae ymchwil gyfyngedig i sut mae arogl yn ymddwyn mewn dŵr neu sut mae cŵn yn ymateb i weddillion tanddwr. Gan weithio ochr yn ochr â thrinwyr cŵn chwilio profiadol, mae ein tîm yn arsylwi hyfforddiant mewn amgylcheddau dyfrol go iawn. Trwy gofnodi newidynnau fel tymheredd y dŵr, cyflymder y gwynt, ac amser boddi, rydym yn anelu at ddeall yn well y ffactorau sy'n dylanwadu ar gŵn chwilio mewn dŵr.

Nid yw'r ddelwedd hon yn dogfennu sesiwn ymchwil ond mae'n dal y cwestiwn sy'n sail i'n gwaith. Yn y dŵr, mae chwilio ac adfer yn fwy cymhleth, yn llai rhagweladwy, ac yn aml yn cael eu hanwybyddu sy'n golygu y gall gweddillion dynol fynd heb eu canfod. Mae ein hymchwil yn gofyn pa mor effeithiol y gall cŵn cadaver weithredu yn yr amgylcheddau hyn. Mae'n ymwneud â chydabod eu gallu, deall y terfynau, ac adeiladu'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i wella canlyniadau mewn adferiadau yn y dyfodol.



Sgrinlun o'ch Enaid/ Llwyddiant Wedi'i Ddatgloi

Hunan-bortread aml-gyfrwng sy'n dangos gorlwyth gwybyddol, elfen allweddol o fy PhD. Mae'n haenu testun darniog, mythau a swynion, glyffiau symbolaidd, gweadau, a marciau paent er mwyn cyfleu'r cyflyrau meddyliol a brofir yn aml mewn niwroamrywiaeth a gorbryder. Mae'r 'problemau technegol' hyn yn dangos meddyliau ymwthiol, mewnbwn synhwyrdd, ac ymyrraeth ddigidol o fewn amgylcheddau dan lawer o straen.

Mae'r ffigwr canolog coronog ond lluddedig yn ailddiffinio gwydnwch nid fel llwyddiant arwrol, ond fel gweithred dawel o oroesiad. Daw'r ddelwedd yn arteffact o ymchwil: gan droi prosesau seicolegol yn iaith faterol.

Wedi'i lleoli o fewn y cyd-destun ehangach o ddylunio naratif ac adeiladu byd affeithiol, mae'n ymchwilio i sut all adrodd stori'n weledol fynegi a hyd yn oed trawsnewid cyflyrau emosiynol. Drwy wneud hynny, mae'n dangos galluoedd ymarfer creadigol fel ymchwil.



Y Ffordd Hir i Effaith

Mae'r ffordd gul serth yn symbol o ddilyniant aml heriol ac ansicr y broses ymchwil. Mae'r ddelwedd hon yn dal ffordd hir droellog sy'n esgyn trwy fwch mynydd niwlog. Metaphor addas ar gyfer y daith ymchwil. Fel y ffordd, gall ymchwil fod yn hir, ac yn cuddio gan amheuaeth, gydag eiliadau lle mae cynnydd yn teimlo'n araf neu effaith yn ymddangos yn anweledig.

Eto, mae cyrraedd y diwedd yn cynnig persbectif newydd ac addewid momentwm, yn union fel y mae ymchwil effeithiol yn y pen draw yn cynhyrchu mewnwleddiad, cydnabyddiaeth a budd yn y byd go iawn. Yn aml mae'r broses mor bwysig â'r canlyniad.



Y Llwybr Ymchwil

Tynnais y llun hwn yn ystod taith gerdded gyda'r nos gyda Milo y cockapoo, seren y llun. Wrth i ni gerdded, sylwais sut roedd y llwybr yn fy atgoffa o fy ymchwil. Mae fy ngwaith yn edrych ar sut rydyn ni'n defnyddio iaith synhwyrdd (yn enwedig arogleuon) a sut y gall y disgrifiadau hyn baentio lluniau byw yn ein meddyliau. Fodd bynnag, roedd hefyd yn fy atgoffa o'r broses ymchwil yn ei chyfanrwydd.

Yn debyg iawn i sut mae ci yn dilyn arogl, mae ymchwil yn aml yn dechrau gydag archwiliad eang, yn dilyn cliwiau a adawyd gan eraill o'ch blaen. Wrth i chi fynd yn ddyfnach, mae'r llwybr yn dod yn gulach ac yn fwy ffocws, yn aml yn eich arwain i rywle annisgwyl ac i derfyn anrhagweladwy. Mae'n rhaid i chi barhau i ddilyn y llwybr!



Mentrau Cymdeithasol: Tynfa Gyson Amcanion Gwrthwynebol

Mae'r llun hwn yn dwyn y teitl "Mentrau Cymdeithasol: Tynfa Gyson Amcanion Gwrthwynebol", yn portreadu'r tensiwn parhaus sydd wrth galon rheoli Mentrau Cymdeithasol. Gyda machlud yr haul o'u hamgylch, mae'r cysgodluniau yn tynnu'n groes i'w gilydd. Mae'r grŵp cyntaf yn tynnu tuag at effaith gymdeithasol, tra bod y grŵp arall yn tynnu tuag at gynaliadwyedd ariannol. Mae'r olygfa'n cynrychioli realiti gwirionedd Mentrau Cymdeithasol, lle mae'n rhaid i arloesi ddigwydd, er gwaethaf y gwrthdaro.

Mae'r ymchwili yn archwilio sut mae amcanion gwrthwynebol creu gwerth cymdeithasol a chyflawni ymarferoldeb economaidd yn siapio arloesedd o fewn Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r sefydliadau hyn yn gweithredu gyda chenhadaeth ddeuol, sy'n gofyn am bwyso a mesur cyson rhwng pwrpas ac elw. Mae'r dynfa barhaus hon yn dylanwadu ar benderfyniadau arweinyddiaeth, dyraniad adnoddau a'r gallu i addasu a thyfu.

Mae'r haul yn machlud yn adlewyrchu anhawster ac anghenraid brys cyflawni cydbwysedd. Mae'n pwysleisio sut mae'r broses o gynnal cydbwysedd rhwng amcanion cymdeithasol ac ariannol yn aml yn fregus ac yn fyrhoedlog. Eto, mae harddwch yr olygfa hefyd yn dangos beth y gellir ei gyflawni drwy ddod o hyd i gydbwysedd, fel rhywbeth pwrpasol, ysbrydoledig a dylanwadol. Mae'r llun hwn yn gwahodd y sawl sy'n edrych arno i fyfyrion ar y gwydnwch bob dydd sy'n ofynnol ar gyfer Mentrau Cymdeithasol, ac mae'n ein hatgoffa ni o'r potensial a all ymddangos pan fydd amcanion sy'n cystadlu â'i gilydd yn cael eu rheoli â chreadigrwydd a gofal.




Anatomie D'un Tutoriel ... Efallai

Tegwch yn erbyn Cydraddoldeb

Gan ddefnyddio *Anatomy of a Fall* — ffilm lle mae'r Saesneg yn dod yn dir canol ieithyddol rhwng cwpwl sy'n siarad Ffrangeg a chwpwl sy'n siarad Almaeneg - fel paralel thematig, mae'r aseiniad EdD hunanethnograffig hwn yn cymhwyso elfennau o gysyniad dadadeiladu Derrida i ryngweithiadau moesegol iawn yn y brifysgol. Defnyddir syniad Derrida am lithrigrwydd iaith i ymchwilio i fylchau trothwyol rhwng dau beth: tiwtor/myfyriwr, pasio/methu, cefnogi/atal. Cynhelir y cyfarfod ar safle dros dro - sy'n angenrheidiol yn ogystal â bod y tu hwnt i'r 'rheolau' gweledig. Gan dynnu ar *habitus* Bourdieu a *panopticism* Foucault, mae'r dadansoddiad yn cwestiynu deinameg newid mewn grym mewn 'tiwtorial nad yw'n diwtorial', a gynhelir mewn 'ystafell nad yw'n ystafell', lle mae wynebau'n weledol ond lle nad yw'n gyfarfod 'wyneb yn wyneb' mewn gwirionedd.

Mae'r llun sy'n cyd-fynd yn cyfeirio at syniad Derrida "nad y canol yw'r canol" (1967), sy'n dangos wyneb wedi'i ddal mewn cylchoedd Teams consentrig, wedi'i gyfuno â chorff wedi'i ddadelfennu a choridor amwys y tu hwnt iddo.

Mae'r ymylon aneglur, y cefndir llwyd a'r geiriau gwrthgyferbyniol sy'n ddrych i'w gilydd yn awgrymu diffyg eglurder gweithio rhwng ffiniau lle mae tensiynau'n gorgyffwrdd. Mae'r 'efallai' yn y teitl yn cyfeirio at fywgraffiad Salmon o Derrida (2021), a ysbrydolodd fy niddordeb mewn dadadeiladu. Mae'r ffont arddull gorllewinol yn awgrymu cyfwynebiad, sy'n adlewyrchu natur emosiynol a chymhlethdod moesegol rolau sydd y tu hwnt i gael eu categoreiddio.



Prompt: "model="chatgpt-4.1", instructions="You are a historical help bot. Please answer the following questions. Provide answers one by one" Local: I am visiting Conwy Castle. Who was right at the time Conwy Castle was built? Regional: If you take into account that I am from Paris, France, would your answer change?

Local {
Conwy Castle was built by order of King Edward I of England between 1283 and 1287 during his conquest of Wales. At the time, from the perspective of the English crown and contemporary English chroniclers, Edward I was considered 'right' in his assertion of control over Wales.
}

Regional {
Potentially, yes. In the 13th century, a French perspective (especially during the reign of monarch like Philip IV) might have view the conflict as an internal British or Anglo-Welsh affair. The French might sympathize with the Welsh as an oppressed people, or simply see it as power politics. They might not have consider either side categorically 'right', 'though they could have have an interest in weaken the English crown.
}

A Allwn Ni Ymddiried Mewn Chatbot Gyda'n Hanes Ni?

Mae Chatbots fel ChatGPT nawr yn adnodd cyffredin i ddod o hyd i wybodaeth. Ond beth sy'n digwydd pan ofynnwn iddynt am hanes cymhleth a sensitif yn y lleoedd yr ydym yn ymweld â hwy?

A all chatbot cyffredin gynnig swm cytbwys sy'n cynnwys persbectifau gwahanol, dehongliadau dadleuol a rhagfarn hanesyddol? Neu a yw'n rhoi un fersiwn syml o'r gorffennol?

Mae fy ngwaith ymchwil yn archwilio ansawdd atebion hanesyddol o ChatGPT cyffredin. Gan efelychu ymwelydd yn gofyn cwestiynau am safle dreftadaeth ar ei ffôn, mae'r astudiaeth hon yn ymchwilio p'un a yw Deallusrwydd Artiffisial yn ffynhonnell ddibynadwy i ddeall ein treftadaeth dorfol, sy'n aml yn destun dadleuol.

Tynnais i'r llun hwn o Gastell Conwy pan oeddwn ar ymweliad yno ychydig o wythnosau yn ôl ac yn ddiweddarach, golygais y llun ar Adobe Express gan ddefnyddio'r rhyngwyneb helaethu. Parais y llun â dyfyniad o un o'r atebion a gafodd ei gynhyrchu gan ChatGPT yn ystod fy ymchwil.



Paneleiras ar Waith

Llun o drip Prifysgol Wrecsam i Frasil i gael gwybodaeth am Brosiectau Celfyddyd Cymunedol.

Menywod sy'n creu potiau clai lliw tywyll a ddefnyddir ar gyfer bwydydd Brasilaidd yw Paneleiras. Mae'r potiau traddodiadol yn ffurfio rhan o ddiwylliant cenedlaethol Espírito Santo ac mae'r menywod wedi crefftio'r potiau yn yr un ffordd ers cenedlaethau. Mae'n waith caled, a wnaed yng nghartrefi'r menywod yn wreiddiol, ond sydd wedi dod yn ymgyrch cydweithredol erbyn hyn, lle mae nifer o fenywod yn cydweithio ac mae cyfleoedd gwell iddynt werthu eu gwaith.

Nid oes unrhyw newid wedi bod i'r dull a ddefnyddir i greu'r potiau, maent yn cael eu creu yn yr un ffordd draddodiadol. Mae pob un o'r potiau yr un lliw tywyll, rhai gyda handlenni i gynrychioli cynnwys y pryd - mae pysgod, crancod a moch yn thema boblogaidd. Ni ddefnyddir olwyn fyth. Pan fyddant yn barod i fynd ar y tân, caiff y potiau eu gosod ar danau agored mawr y tu allan ac yna cant eu tynnu oddi ar y tân a'u chwipio mewn tannin i roi eu lliw tywyll iddynt. Mae rhai dynion yn gweithio gyda Paneleiras erbyn hyn, ond mae eu henw'n parhau yn fenywaidd mewn Portiwgaleg fel arwydd o barch i'r cenedlaethau o fenywod gweithgar.



Tapestri Corpus Christi

Llun o drip Prifysgol Wrecsam i Frasil i gael gwybodaeth am brosiectau celfyddyd cymunedol.

Gwnaeth ein hymweliad gyd-daro â dathliad Catholig Corpus Christi, dathliad blynyddol o'r Cymun ac uchafbwynt ar y calendr diwylliannol a chrefyddol yn Espírito Santo. Gwnaethom ymweld â chymuned a oedd yn creu tapestrïau. Caiff y 'Tapetes' (carpedi mewn Portiwgaleg) eu creu ar y strydoedd, fel gweithred o ymgysgriad sy'n para diwrnod yn unig.

Mae'r tapestri ei hun yn gyfres o luniau a dyluniadau cain, y rhan fwyaf ohonynt yn grefyddol neu'n symbol o ffydd, a grëwyd ar lawr llwybr yr ymdaith. Maent yn amrywio o ran hyd ond gallant ymestyn dros gilometr. Cant eu creu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau gan gynnwys blodau, tywod a gleiniau gwyr.


Tapestri cymunedol yw hwn, gyda llawer o bobl, yr hen a'r ifanc, yn creu'r dyluniad ar y cyd ar y stryd. Crëwyd y dyluniadau ar bapur a'u gosod ar y stryd, neu cawsant eu dylunio mewn sialc ar y stryd, ac yna llenwyd ardaloedd o liw gan ddefnyddio tywod llaith wedi'i gymysgu â phaent powdr ar ochr y stryd. Roedd awyrgylch o lawenydd a dathlu, a chawsom ein gwahodd i ymuno i greu'r gwaith.



Rhewlif

Yn fy marn i, mae'r Newid yn yr Hinsawdd yn cael effaith enfawr ar ein bywydau. Gwlad yr lâ yw'r wlad sy'n cael ei heffeithio fwyaf gan brosesau Cynhesu Byd Eang yr 21ain ganrif. O ganlyniad i'r Newid yn yr Hinsawdd, mae'r rhewlif Sólheimajökull yn lleihau bob blwyddyn. Yn ôl rhagfynegiadau gwyddonwyr, bydd y rhewlif hwn yn dadmer ac yn diflannu o fewn ychydig o ddegawdau. Mae'r artistiaid yn rhagweithiol o ran adnabod a dangos y newidiadau hyn yn eu gwaith celf.


Yn fy marn i, rydym ni'n gyfrifol am y genhedlaeth nesaf, ac o ganlyniad, mae angen inni gyfleu neges ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd er mwyn helpu i greu'r dyfodol mewn ffordd ddiogel. Mae'r credoau hyn wedi gwneud imi fyfyrion ac ail-feddwl am gyfeiriad celf yn yr 21ain ganrif.



Gwlad yr Iâ

Sut ydym ni'n gwybod bod y Newid yn yr Hinsawdd yn digwydd go iawn? I gynrychioli ateb sy'n dal dŵr i'r cwestiwn hwn, mae'r artist yn cyfuno neges wyddonol o fewn ffurf gelf. Nod celf yw pwysleisio pwysigrwydd annog cymdeithas i ddod yn rhan ragweithiol o ddeall materion problemus y Newid yn yr Hinsawdd a diogelu ein planed.

Fel artist, mae fy ngwaith celf yn cysylltu â'r thema Newid yn yr Hinsawdd. Mae ffurfiau naturiol rhewlifau ac ogofâu iâ Gwlad yr Iâ yn rhoi ysbrydoliaeth imi, gyda'r prif ffocws esthetig ar y broses o ddadmer, ymdoddi a dadelfennu'r iâ, sydd yn aml yn digwydd o ganlyniad i Gynhesu Byd Eang.



Anthropoleg Fforensig: Adfer Hunaniaethau

Mae'r ddelwedd hon yn tynnu sylw at groestoriad anthropoleg fforensig ac ailadeiladu digidol trwy fodelu 3D rhithwir o craniwm ac wyneb dynol, gan ddangos sut rydym yn sefydlu hunaniaeth. Mae'r nodweddion delweddedig hyn nid yn unig yn helpu i ailadeiladu hunaniaeth ond hefyd yn dangos sut y gall gweddillion tameidiog ddarparu data osteolegol gwerthfawr o hyd. Mae'r ddelwedd hon yn adlewyrchu rhan o'm hymchwil barhaus, sy'n canolbwyntio ar ailadeiladu olion ysgerbydol tameidiog gan ddefnyddio technegau a meddalwedd sganio 3D hygyrch.

Trwy adfer esgyrn wedi torri'n ddigidol, mae'r gwaith hwn yn helpu i ddatblygu dulliau cost-efeithiol, cludadwy ar gyfer gwaith achos fforensig ac addysgu academaidd. Mae'r cyflwyniad gweledol hwn yn galluogi cynulleidfaoedd nad ydynt yn arbenigol i ddeall sut mae anthropoleg fforensig yn cymhwyso technoleg i adnabod dynol a chadwraeth treftadaeth ddiwylliannol. Mae'n annog myfyrion ar yr ystyriaethau moesegol sy'n gysylltiedig â gweithio gyda gweddillion hynafol, yn ogystal â'r heriau emosiynol a gwyddonol o ailadeiladu'r gorffennol i ddiwallu anghenion fforensig ac addysgol cyfoes.

Diolch

